Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cam 2 Amddiffyn Arfordir y Rhyl - Adroddiad Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar y Pentref Plant
Medi 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3

Trosolwg o'r ymgynghoriad 3

Cyfradd ymateb 4

Crynodeb o'r canfyddiadau 4

Adborth cychwynnol ar y cynnig 4

Newidiadau a gwelliannau a awgrymwyd 5

Themâu allweddol 6

Mwy o atyniadau a gweithgareddau 6

Ciosgau, caffis, gwerthwyr a thoiledau 6

Chwarae dŵr 7

Arena Ddigwyddiadau Bresennol 7

Cynnal a chadw a gwydnwch 8

Y Stryd Fawr ac adfywio ehangach 8

Dyluniad, hunaniaeth a delweddau'r ymgynghoriad 8

Diogelwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol 9

Adleoli'r Ffair 9

Hygyrchedd 10

Casgliadau a'r camau nesaf 10

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer ardal Pentref Plant y Rhyl. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i ymatebwyr am adborth cychwynnol ar y cynnig ac os oedd unrhyw beth yr hoffent ei newid neu ei wella.

Mae data'r ymgynghoriad yn cynnwys 69 o ymatebion o sylwedd. Bu i'r 69 o ymatebwyr ddarparu adborth cychwynnol ar y cynnig, a bu i 65 o ymatebwyr hefyd ateb y cwestiwn "A oes unrhyw beth yr hoffwn ei newid neu ei wella?". Ni wnaeth pawb ateb pob cwestiwn. Er gwaethaf erthyglau yn y Rhyl Journal mae'r lefel hwn o ymateb efallai yn is na'r disgwyl.

Roedd yr adborth yn gymysg, er mai'r negeseuon cryfaf oedd pryderon ynglŷn â chreu lle digwyddiadau hyblyg ychwanegol pan gredir bod yr Arena Ddigwyddiadau presennol yn cael ei thanddefnyddio; ceisiadau am fwy o atyniadau a gweithgareddau i blant, teuluoedd a phobl ifanc; ceisiadau am chwarae dŵr; a dyhead ar gyfer ciosgau, caffis, toiledau a chyfleusterau eraill a fyddai'n annog pobl i aros am gyfnod hwy ar y promenâd.

Roedd adborth cadarnhaol hefyd. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu buddsoddiad yn yr ardal, yn cefnogi disodli neu ailddatblygu'r Pentref Plant oedd yno, yn hoff o'r ardd ger y dŵr a thirlunio'r man cyhoeddus, neu'n ystyried bod adleoli'r ffair yn fuddiol. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed ymatebion cefnogol yn codi cwestiynau yn aml ynglŷn â chynnal a chadw hirdymor, diogelwch, hygyrchedd a sut fyddai'r lle yn cael ei drefnu a'i ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn.

Trosolwg o'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar gynigion i wella ardal Pentref Plant y Rhyl. Roedd yr ymatebion yn dangos bod pobl yn ystyried nid yn unig y safle arfaethedig ei hun, ond hefyd ei berthynas â'r promenâd ehangach, yr Arena Ddigwyddiadau sydd yno, Marchnad y Frenhines a chanol y dref.

Roedd y ddau gwestiwn agored yn caniatáu i ymatebwyr ddarparu sylwadau manwl yn eu geiriau eu hunain. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylwadau hynny yn thematig. Mae'r themâu yn gorgyffwrdd, felly gall un ymateb gyfrannu at fwy nag un thema. Felly ni ddylid

cymryd y ffigyrau yn y dadansoddiad thematig gyda'i gilydd fel pe baent yn gategorïau annibynnol.

Cyfradd ymateb

Cafwyd cyfanswm o 69 o ymatebion o sylwedd i'r ymgynghoriad. Bu i'r 69 o ymatebwyr ateb y cwestiwn adborth cychwynnol, a bu i 65 o ymatebwyr (94.2%) ateb y cwestiwn newidiadau a gwelliannau.

Crynodeb o'r canfyddiadau

Adborth cychwynnol ar y cynnig

Roedd yr ymatebion adborth cychwynnol yn amrywio o gefnogaeth gref i wrthwynebiad cryf, gyda 7 o ymatebwyr yn hollol yn erbyn y prosiect, gydag eraill yn codi materion nad oeddent yn berthnasol megis glanweithdra rhywle arall yn y dref, cyflwr y siopau etc. Roedd nifer o ymatebwyr yn disgrifio'r cynigion fel deniadol, modern neu'n welliant a groesawir i ardal roeddent yn teimlo ei bod yn flêr neu nad oedd yn cael digon o ddefnydd. Roedd sylwadau cadarnhaol yn benodol yn cyfeirio at yr ardd ger y dŵr, lleoedd ychwanegol i eistedd, y lle hyblyg ac adleoli posib y ffair.

Y pryder mwyaf cyffredin oedd os yw'r Rhyl angen lle digwyddiadau arall. Bu i ymatebwyr gyfeirio dro ar ôl tro nad yw'r Arena Ddigwyddiadau yn cael digon o ddefnydd a chwestiynwyd yr achos dros greu ardal ddigwyddiadau hyblyg arall. Roedd rhai yn awgrymu y dylai'r buddsoddiad yn hytrach gael ei gyfeirio tuag at wella, rhaglennu neu wneud gwell defnydd o'r arena sy'n bodoli.

Ail neges gref oedd y gallai'r cynllun gynnwys mwy o resymau i bobl ymweld ac aros. Gofynnodd ymatebwyr am atyniadau a gweithgareddau i blant, rhai yn eu harddegau, trigolion ac ymwelwyr. Roedd awgrymiadau yn cynnwys ardaloedd chwarae, sglefrio, bowlio, dringo, cyfleusterau chwaraeon, ffair estynedig a defnydd hamdden pob tywydd neu trwy'r flwyddyn.

Roedd chwarae dŵr yn awgrym a gafwyd yn aml. Roedd ymatebwyr yn cyfeirio at badiau sblasio, ffynhonnau dawnsio, pyllau padlo, lido ac atyniadau dŵr am ddim eraill. Roedd

nifer o sylwadau yn cysylltu hyn â hanes y Rhyl fel cyrchfan glan môr ac â'r dyhead ar gyfer atyniad teuluol am ddim.

Roedd cynnal a chadw hirdymor yn bryder sylweddol arall. Roedd ymatebwyr yn cwestiynu a fyddai planhigion, gerddi, seddi a nodweddion parth cyhoeddus eraill yn cael eu cynnal yn ddigonol yn yr amgylchedd arfordirol. Bu i nifer gyfeirio at fannau cyhoeddus blaenorol, a oedd, yn eu barn nhw, wedi dirywio dros amser.

Newidiadau a gwelliannau a awgrymwyd

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd yn atgyfnerthu'r pryderon a godwyd yn y cwestiwn adborth cychwynnol. Bu i ymatebwyr ofyn yn aml am gyfleusterau ymarferol ochr yn ochr â'r parth cyhoeddus, gan gynnwys ciosgau, caffis, mannau gwerthu hufen ia neu luniaeth, toiledau a chyfleoedd ar gyfer masnachwyr symudol neu dymhorol. Gwelwyd y rhain fel ffyrdd o gynyddu amser aros a chefnogi gweithgarwch ar y promenâd.

Roedd nifer o ymatebwyr eisiau i'r cynigion ddarparu mwy i blant a phobl ifanc. Roedd awgrymiadau yn cynnwys mannau chwarae mwy, cyfleusterau ar gyfer rhai yn eu harddegau, gemau awyr agored, tennis bwrdd, cyrtiau chwaraeon, cyfleusterau sglefrio neu drac pwmpio ac atyniadau am ddim. Roedd rhai ymatebwyr yn benodol yn nodi'r angen ar gyfer gweithgareddau y gallai pobl ifanc lleol eu defnyddio yn rheolaidd yn hytrach na chyfleusterau wedi eu hanelu at ymwelwyr tymhorol yn unig.

Bu i ymatebwyr hefyd godi cyd-destun canol y dref ehangach. Roedd sylwadau yn cyfeirio at gyflwr a meddiannaeth y Stryd Fawr, glanweithdra, parcio, eiddo gwag a'r angen ar gyfer gweledigaeth mwy gydlynol ar gyfer y Rhyl. Roedd rhai yn cwestiynu a fyddai gwelliannau i safle'r Pentref Plant yn unig yn cynyddu nifer yr ymwelwyr heb ymdrin â'r materion ehangach hyn.

Roedd nifer o ymatebwyr yn gofyn am synnwyr cryfach o le yn y dyluniad. Roedd sylwadau yn awgrymu y dylai'r cynllun deimlo ei fod wedi ei gysylltu â'r Rhyl, Cymru a'i threftadaeth glan môr neu Fictoraidd yn hytrach nag ymddangos yn gyffredinol. Roedd awgrymiadau yn cynnwys deunyddiau o ansawdd uwch, dyluniad unigryw, plannu sy'n addas ar gyfer yr amgylchedd arfordirol a hunaniaeth gyson ar hyd y promenâd a chanol y dref.

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Themâu allweddol

Cafodd y themâu canlynol eu hadnabod o'r ddau gwestiwn testun agored. Mae cyfrifon yn dangos codio lefel ymatebion ar draws y 69 ymateb o sylwedd ac fe'u bwriedir i ddangos amlygrwydd cymharol themâu; gall ymatebion ymddangos mewn mwy nag un thema.

Mwy o atyniadau a gweithgareddau

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 31 o gofnodion ymateb yn cyfeirio at yr angen ar gyfer mwy o atyniadau, gweithgareddau neu gyfleoedd hamdden. Dyma oedd y thema fwyaf amlwg yn yr adborth. Roedd ymatebwyr yn benodol eisiau pethau a fyddai'n denu teuluoedd ac ymwelwyr wrth ddarparu gwerth gydol y flwyddyn i drigolion lleol a phobl ifanc.

Ymateb y Cyngor

Tra bod yr arian grant wedi diffinio amcanion, mae penderfyniadau dylunio manwl yn parhau i gael eu llywio gan adborth gan y gymuned cymaint â phosib ac felly nod cyffredinol y prosiect yw creu lle ble gellir cynllunio'r mathau hyn o weithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Ciosgau, caffis, gwerthwyr a thoiledau

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 30 o gofnodion ymateb yn cyfeirio at giosgau, caffis, gwerthwyr bwyd a diod, stondinau, toiledau neu gyfleusterau tebyg. Roedd ymatebwyr yn aml yn cysylltu'r cyfleusterau hyn at wneud y promenâd yn fwy cyfleus ac annog pobl i dreulio mwy o amser yn yr ardal.

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor wedi nodi'ch sylwadau'n ofalus. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi, gan gynnwys diweddariadau trwy'r wasg a sianeli cyfathrebu eraill.

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Chwarae dŵr

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 25 o gofnodion ymateb yn cyfeirio at bad sblasio, ffynhonnau, pyllau padlo, pwll awyr agored neu fath arall o chwarae dŵr.

Ymateb y Cyngor

Roedd nifer yn disgrifio hyn fel atyniad am ddim i'r teulu a fyddai'n cyd-fynd â lleoliad glan môr y Rhyl. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod diddordeb cyhoeddus cryf yn y ddarpariaeth cyfleusterau chwarae dŵr. Yn anffodus, oherwydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r maes parcio tanddaearol o dan y safle, a phryderon ynglŷn ag effaith tywod yn chwythu o'r traeth, yn realistig ni all nodwedd chwarae dŵr gael ei gynnwys fel rhan o'r prosiect penodol hwn. Fodd bynnag, mae'r adborth a gafwyd trwy'r ymgynghoriad wedi ei nodi a bydd yn cael ei ystyried pan edrychir ar gyfleoedd ar gyfer prosiectau'r dyfodol trwy ffrydiau ariannu eraill.

Arena Ddigwyddiadau Bresennol

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 22 o gofnodion ymateb yn cwestiynu'r angen ar gyfer lle digwyddiadau arall neu gyfeirio at y tan-ddefnydd o'r Arena Ddigwyddiadau bresennol. Roedd hyn yn bryder cyson ar draws dau gwestiwn yr ymgynghoriad.

Ymateb y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cydnabod y sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r Arena Ddigwyddiadau bresennol. Fodd bynnag, mae gan y cyfleuster cyfredol nifer o gyfyngiadau isadeiledd sylweddol, gan gynnwys cyfyngiadau acwsteg a chapasiti pŵer annigonol. Mae'r materion hyn yn effeithio ar yr ystod a graddfa digwyddiadau a ellir eu cynnal ac wedi cyfrannu at anawsterau wrth ddenu hyrwyddwyr i ddefnyddio'r lleoliad. Yr adborth rydym wedi ei gael, yw y byddai angen cyllid sylweddol sy'n fwy na'r hyn sydd ar gael yn bresennol i wneud yr arena ddigwyddiadau yn hyfyw.

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Cynnal a chadw a gwydnwch

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 19 o gofnodion ymateb yn codi cynnal a chadw, glanweithdra, gwytnwch neu'r gallu i gynnal ardaloedd wedi'u tirlunio yn yr hirdymor. Roedd ymatebwyr eisiau sicrwydd y byddai unrhyw fuddsoddiad yn parhau i fod yn ddeniadol ac yn ddefnyddiadwy ar ôl ei gwblhau.

Ymateb y Cyngor

Er bod cyllid refeniw y tu hwnt i gwmpas y grant cyfalaf hwn, mae goblygiadau cynnal a chadw yn cael eu hystyried yn ofalus.

Y Stryd Fawr ac adfywio ehangach

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 17 o gofnodion ymateb yn cyfeirio at y Stryd Fawr, canol y dref, siopau, parcio neu adfywio ehangach. Mae'r sylwadau hyn yn dangos bod rhai ymatebwyr yn teimlo bod llwyddiant y safle yn dibynnu ar welliannau ehangach a chysylltiadau cryfach ar draws y Rhyl.

Ymateb y Cyngor

Tra bod y cynllun yn canolbwyntio ar welliannau i'r Pentref Plant, mae'n ffurfio rhan o ymdrechion adfywio ehangach sy'n digwydd ar draws y Rhyl, yn benodol y cynlluniau Parth Cyhoeddus a Phriffyrdd LRF sydd oll yn anelu i gysylltu'r traeth gyda Chanol y Dref - amcan allweddol.

Dyluniad, hunaniaeth a delweddau'r ymgynghoriad

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 14 o gofnodion ymateb yn sôn am gymeriad y dyluniad neu ddelweddau'r ymgynghoriad. Roedd pryderon yn cynnwys nad oedd y delweddau yn cynrychioli'r Rhyl,

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

bod y cynigion yn teimlo'n gyffredinol neu'n ddiflas, a dyhead ar gyfer hunaniaeth glan môr neu hunaniaeth leol gryfach.

Ymateb y Cyngor

Er bod gan y cyllid grant amcanion diffiniedig, mae adborth gan y gymuned yn dal i lywio penderfyniadau manwl am ddyluniad cymaint ag sy'n bosibl. Yn y digwyddiad ymgynghori ei hun, pan gafodd swyddogion sgwrs un i un gyda thrigolion, cafodd y pryderon hyn eu lleddfu.

Diogelwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Crynodeb o'r adborth

Roedd tua 11 o gofnodion ymateb yn codi diogelwch, ymddygiad gwrthgymdeithasol, plismona, pryderon yn ymwneud â chyffuriau neu alcohol, goleuadau neu'r angen i osgoi ardaloedd cudd. Bu i un ymateb ofyn yn benodol i'r dyluniad ystyried diogelwch merched a genethod.

Ymateb y Cyngor

Mae'r cynllun yn anelu at greu mannau cynhwysol a chroesawgar i bob defnyddiwr. Parheir i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol. Yn benodol rydym yn trafod gyda Swyddog Trosedd Dyluniad Heddlu Gogledd Cymru.

Adleoli'r Ffair

Crynodeb o'r adborth

Roedd barn ynglŷn â'r ffair yn gymysg. Roedd tua 7 o gofnodion ymateb yn trafod yn benodol a ddylid adleoli neu gadw'r ffair. Roedd rhai yn cefnogi adleoli i wella gweledigedd, tra bod yn well gan eraill y lleoliad presennol neu roeddent yn pryderu ynglŷn ag effaith weledol ei symud i'r hen safle SeaQuarium.

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Ymateb y Cyngor

Mae’r Cyngor yn cydnabod bod lleoliad y ffair wedi cael nifer o broblemau yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol dros y blynyddoedd. Byddai adleoli’r ffair yn rhoi cyfle i helpu i ymdrin â’r pryderon hyn, a hefyd rhyddhau’r safle presennol i’w adfywio. Byddai hyn yn cefnogi’r dyhead ehangach i greu ardal sy’n fwy deniadol, croesawus a hygyrch, a chryfhau’r cysylltiad rhwng canol tref y Rhyl a’r traeth.

Hygyrchedd

Crynodeb o’r adborth

Bu i grŵp llai ond pwysig o drigolion sôn am hygyrchedd. Roedd y sylwadau yn cynnwys lled llwybrau ar gyfer rhai mewn cadeiriau olwyn, anghenion pobl â nam ar y golwg a phobl ag anawsterau symudedd, a darparu cyfleusterau hygyrch megis cyfleuster Lleoedd Newid.

Ymateb y Cyngor

Mae’r cynllun yn anelu at greu mannau cynhwysol a chroesawgar i bob defnyddiwr. Bydd yr ystyriaethau hyn yn sail i benderfyniadau manwl ynghylch gosodiad a thirlunio. Byddwn yn cynnal archwiliad Walkability a Hygyrchedd yn y dyfodol agos.

Casgliadau a'r camau nesaf

Crynodeb o’r adborth

Mae’r ymgynghoriad yn dangos awydd clir ar gyfer buddsoddiad yn y Rhyl, ond hefyd disgwyliad cryf y dylai buddsoddiad greu rhesymau ymarferol i drigolion ac ymwelwyr ddefnyddio’r ardal. Y neges fwyaf cyson yw nad yw parth cyhoeddus deniadol yn unig yn cael ei ystyried yn ddigonol gan nifer o ymatebwyr. Mae pobl eisiau gweithgarwch, darpariaeth deuluol ac ieuenctid a hyder y bydd yr ardal yn ddiogel, yn hygyrch ac yn cael ei chynnal yn dda a’i defnyddio’n rheolaidd.

Cynigion Pentref Plant y Rhyl

Ymateb y Cyngor

Dymunai'r Cyngor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad, a hoffem sicrhau pawb bod eich sylwadau wedi'u nodi a'u hystyried yn ofalus. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi, gan gynnwys diweddariadau trwy'r wasg a sianeli cyfathrebu eraill.